General Optical Council

# Adroddiad Gofynion Cymraeg y GOC 2021-2022

Dyma Adroddiad Gofynion Cymraeg y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC), sy'n adrodd sut mae'r GOC yn bodloni gofynion ac yn cyflenwi'r Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion 2020-2021 ar gyfer Cynghorau Proffesiynol Iechyd a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'i goladu yn 2021-2022.

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 (1) y Ddeddf ar 23 Tachwedd 2009.

Mae'r GOC wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y GOC yn gweinyddu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

Nod cyffredinol y Cynllun Iaith Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg yng Nghymru.

## 1. Asesu Effeithiau Polisi

### 1.1 Nifer a chanran y polisïau (gan gynnwys polisïau a adolygwyd neu a addaswyd) lle'r ystyriwyd yr effeithiau y byddai'r polisi yn eu cael ar ddefnydd o'r Gymraeg

Yn nhempled asesu effaith y GOC, sy'n berthnasol i bobl polisi newydd neu ddiwygiedig, mae'r effeithiau o ran y Gymraeg yn cael eu sgrinio, a gofynnir i staff a oes angen i'r polisi neu rannau o'r broses gael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

**1.2 Enghraifft o asesiad lle dyfarnwyd y byddai'r polisi yn cael effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg, a manylion ynghylch sut diwygiwyd y polisi yn sgil hynny**

Nid oes unrhyw enghreifftiau o ble dyfarnwyd drwy asesiad fod effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg ac felly dim diwygiadau o ganlyniad.

## 2. Cyhoeddi

### 2.1 Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd

Ar wefan y GOC mae cyfanswm o 203 o gyhoeddiadau. Gwelir y rhain ar ein gwefan yn - https://www.optical.org/en/news_publications/Publications/index.cfm

Mae'r cyhoeddiadau hyn yn ymrannu'n gategorïau fel a welir yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth gorfforaethol | 228 |
| Arweiniad a safonau | 192 |
| Polisi ac ymchwil | 80 |
| Adroddiadau | 104 |
| Bwletinau | 5 |
| Gwybodaeth ddiweddaraf COVID-19 gan gynnwys archif | 25 |

Daw hyn i gyfanswm o 634 (heb gynnwys cyhoeddiadau Cymraeg).

### 2.2 Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg

Ar wefan y GOC mae 19 o gyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg. Mae modd mynd at y rhain drwy adran Gymraeg ar y wefan.

## 3. Cwynion

### 3.1 Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru

Yn 2021-2022 cafodd 11 o gwynion eu derbyn am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

### 3.2 Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru

Yn ystod 2021-2022, ni dderbyniodd y GOC yr un gŵyn yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

### 3.3 Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â chydymffurfedd y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg

Yn ystod 2021-2022, ni dderbyniodd y GOC yr un gŵyn mewn perthynas â chydymffurfedd y Cyngor â'i Gynllun Cynllun Iaith Gymraeg.

## 4. Gwefan

### 4.1 Canran o wefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg

Ar wefan y GOC mae un dudalen yn Gymraeg. Mae gan y wefan newydd a lansiwyd yn Rhagfyr 2021 660 o dudalennau ac mae ganddi'r gallu i gael ei chyfieithu i Gymraeg. Yn 2020 ysgrifennodd y GOC Asesiad Effaith Rheoleiddiol am Safonau'r Gymraeg a oedd wedi'u cynnig, a amlygodd y costau a oedd ynghlwm wrth gyfieithu'r wefan gyfan, gan ddod i'r casgliad nad oedd yn gost resymol, yng ngoleuni lefel y galw. Ymatebodd y GOC gan ddweud y bydd yn cydymffurfio â'r safonau lle gall wneud hynny'n rhesymol ac y bydd yn parhau i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar ei wefan, gan gymryd i ystyriaeth arweiniad a bennir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**4.2 Tystiolaeth ynghylch unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan**

Bydd Safonau'r Gymraeg yn cyflwyno gofynion newydd a byddwn yn adolygu'r hyn a ddarparwn yn unol â'r hysbysiad cydymffurfio.

**4.3 Tystiolaeth ynghylch y broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn 2020-21)**

Ni fu unrhyw newid i'r broses a gafodd ei hadrodd yn 2020-2021.

**5. Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg**

**5.1 Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad ac, yn sgil hynny, tystiolaeth o gynnydd yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau.**

Cyhoeddir deunydd Cymraeg yn adran Gymraeg gwefan y GOC.

Rhwng Ionawr ac Awst, edrychwyd ar y dudalen 252 o weithiau, sy'n 0.02% o gyfanswm ymweliadau tudalen y wefan sef 1,344,171. Hon oedd y 278$^{fed}$ tudalen yr edrychwyd arni amlaf.

**5.2 Gwybodaeth am unrhyw ddulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. asesu profiad unigolion sydd/fyddai yn eu defnyddio)**

Ac eithrio data am ymweliadau â thudalennau gwefan y GOC, ni fu unrhyw asesiad o ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn benodol.

## 6. Achosion Addasrwydd i Ymarfer

### 6.1 Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru

Yn ystod 2021-2022, ni chafodd unrhyw wrandawiadau eu cynnal yng Nghymru.

### 6.2 Nifer y gwrandawiadau lle gwnaed cais gan y tyst i siarad Cymraeg

Yn ystod 2021-2022, ni chafwyd unrhyw geisiadau gan dystion i siarad Cymraeg.

### 6.3 Nifer y gwrandawiadau lle cafodd tystiolaeth ei chyflwyno yn Gymraeg

Yn ystod 2021-2022, nid oedd unrhyw wrandawiadau pan gafodd tystiolaeth ei chyflwyno yn Gymraeg.

## 7. Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

### 7.1 Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd yn y 12 mis diwethaf) a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg

Yn y 12 mis diwethaf, nid yw unrhyw staff newydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

### 7.2 Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ers i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno

Nid yw unrhyw staff wedi mynychu hyfforddiant ar y Gymraeg. Mae'r GOC wrthi'n adolygu'r pecyn hyfforddiant mae'n ei ddarparu i staff.

## 8. Hunan-reoleiddio

## 8.1 Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i alluogi iddo hunan-reoleiddio'n effeithiol

Mae cynnwys cwestiynau am y Gymraeg yn ein hofferyn sgrinio asesiad effaith safonol yn sicrhau bod staff yn aros yn ymwybodol o'r angen i feddwl am ofynion o ran y Gymraeg.

## 8.2 Adborth Defnyddwyr

Mae gan y GOC borth ymgynghori i gasglu adborth oddi wrth y cyhoedd a chofrestreion ar sut mae'r GOC yn gweithredu. Mae polisi ac arweiniad yn enghreifftiau o eitemau yr ymgynghorir arnnt. Trwy ymgynghori, gall y GOC sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau i amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo safonau addysg, perfformiad ac ymddygiad uchel ymhlith optegwyr. Mae'r porth ymgynghori hwn ar gael yn https://consultation.optical.org/ Os cafwyd cais, byddai'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad yn cael eu darparu yn y Gymraeg.

Mae gan y GOC weithdrefnau cwyno am y canlynol: cwynion addasrwydd i ymarfer ynghylch cofrestreion y GOC, cwynion defnyddwyr am gofrestreion y GOC, cwynion ymarfer anghyfreithlon am bobl nad ydynt yn gofrestreion, a chwynion corfforaethol. Mae proses wahanol ynghlwm wrth bob un yn dibynnu ar y math o gŵyn. Mae'r broses am bob math o gŵyn yn cael ei chyhoeddi ar wefan y GOC, gan gynnwys fersiwn Gymraeg o'r Polisi Cwynion Corfforaethol .

Mae ffurflenni cwyno pellach ar gyfer cwyno am gofrestreion y GOC ar gael ar dudalen Gymraeg ein gwefan hefyd.

## 8.3 Sicrwydd Mewnol Ynghylch Perfformiad

Fel rhan o asesiadau effaith prosiectau a pholisïau'r GOC, mae pob eitem yn cael ei sgrinio i wirio a oes angen ei chyhoeddi yn Gymraeg, gan sicrhau bod y GOC yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae gan bolisïau mewnol ac allanol fel ei gilydd brosesau adolygu trylwyr, lle caiff polisïau eu hadolygu gan y Grŵp Adolygu Polisi. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan i'r GOC, gan gynnwys Safonau a Chyfreithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y GOC yn cydymffurfio â safonau, y gyfraith a chyfrifoldebau fel rheoleiddiwr iechyd.

## 9. Arweinyddiaeth a Chynllunio Strategol

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r GOC ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Gyda'i gilydd maent yn gyfrifol am gyfarwyddo busnes y GOC, sicrhau ei fod yn solfent, yn cael ei gynnal yn dda, ac o fudd i'r cyhoedd.

Mae holl aelodau'r Cyngor ynrhannu'r un ddyletswydd i amddiffyn y cyhoedd a goruchwylio'r amrediad llawn o brosesau rheoleiddio.

Prif swyddogaethau'r Cyngor yw:

- amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Optegwyr 1989;
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol i aelodau'r proffesiynau hynny; a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad priodol i gofrestreion busnes.

Mae ein Cyngor yn cynnwys 12 aelod Cyngor, chwech ohonynt yn gofrestreion a chwech yn aelodau lleyg. Daw'r aelodaeth o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n ofyniad statudol bod y Cyngor yn cynnwys aelod o bob un o'r cenhedloedd datganoledig. At ddibenion cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, mae'r rôl hon ar gyfer Cymru yn cael ei chyflawni gan Lisa Gerson, Aelod-Gofrestrai.

Mae ein strwythur llywodraethu yn cynnwys pedwar pwyllgor anstatudol (Archwilio, Risg a Chyllid, Buddsoddi, Enwebiadau, a Thâl) a phedwar pwyllgor statudol

(Cwmnïau, Addysg, Cofrestru, a Safonau). Mae’r pedwar pwyllgor statudol (y cyfeirir atynt weithiau fel pwyllgorau’r Cyngor) yn cwrdd yn gyfunol fel Panel Cynghori.

Er mwyn ymarfer ei bwerau, mae’r Cyngor yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i bwyllgorau sydd ag awdurdod a chylch gwaith a ddiffinir yn glir.

Mae Cyngor y GOC yn cymeradwyo strategaeth a chyllideb y GOC wrth ddilyn cyngor y tîm uwch-reolwyr (SMT).

Mae’r tîm uwch-reolwyr yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, Cyfarwyddwr Newid, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio a Chyfarwyddwr Strategaeth Reoleiddio.

Y tîm uwch-reolwyr sy’n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol a rheolaeth y GOC. Yn eu priod rolau, maent yn sicrhau ein bod yn cyflenwi ein dyletswyddau statudol, yn cynghori’r Cyngor ar gyfeiriad strategol y GOC, yn paratoi cyllidebau i’r Cyngor eu cymeradwyo, ac yn rheoli risgiau strategol.

Yn nwylo’r Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y tîm Llywodraethu, y mae’r cyfrifoldeb o fewn yr SMT am gydymffurfedd â’r gyfraith gorfforaethol, elusennol a chydraddoldeb, ac â’n rhwymedigaethau o ran y Gymraeg.

***Arbenigedd Gweithredol gan Unigolyn neu Dîm Penodol***

Mae’r tîm Polisi yn gyfrifol am amrediad o faterion polisi drwy ddadansoddi, ymchwilio a gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth, gan gymryd i ystyriaeth datblygiadau allanol a’r cyd-destun rheoleiddio ehangach. Byddai hyn yn cynnwys cymryd anghenion, gofynion ac ystyriaethau penodol y cenhedloedd datganoledig, gan gynnwys Cymru, i ystyriaeth.

Mae’r Tîm Llywodraethu yn gyfrifol am gefnogi’r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, y Cyngor a’r SMT yn rhediad beunyddiol y GOC drwy roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad perthnasol, a sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth berthnasol. Mae’r tîm yn trafod Llywodraethu Corfforaethol, Cydymffurfio, Cymorth i Aelodau,

Llywodraethu Polisïau, Llywodraethu Gwybodaeth, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a Chynllunio a Sicrwydd Busnes.

Yn ogystal, mae'r Tîm Cyfathrebu yn cefnogi ein Cynllun Iaith Gymraeg drwy drefnu i ddogfennau a'r wefan yn cael eu cyfieithu gan gyfieithwyr allanol.

Mae'r GOC wedi penodi Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n adrodd i'r tîm Llywodraethu ac sy'n gyfrifol am y Gymraeg i sicrhau bod y GOC a'i arweinwyr yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am Safonau'r Iaith Gymraeg a'r gofynion penodol ar gyfer Cynghorau Iechyd.